

# Mewn Ctr'l'



Rhaglen gwaith grŵp yn bennaf yw 'Mewn Ctr'l' sydd yn ceisio atal camdriniaeth rywiol ar-lein. Oherwydd pan demig Covid-19, mae'r rhaglen wedi cael ei haddasu i weithio'n rhithiol ac ar sail 1: 1.

## Cyd-destun

Mae'r gwasanaeth yma i blant sydd efallai gyda rhai gwendidau fel hunan-barch isel, wedi dioddef bwlio, rhiant ac iechyd meddwl neu yn ofalwyr ifanc. Yn ychwanegol, efallai ei bod gyda gwendidau uwch oherwydd yn flaenorol wedi gwynebu profiadau niweidiol yn ei phlentyndod.

Oherwydd ei phrofiadau, gallai fod risg cynyddol neu effaith uwch os ydynt yn wynebu camdriniaeth rywiol ar-lein. I atal hyn, rydym angen adnabod a gweithio gyda nhw i adeiladu eu gwytnwch ac i sicrhau ei bod nhw yn cael mewnbwn sydd wedi'i deilwra yn sensitif i amgylchedd y cartref ag unrhyw ffactorau risg eraill. Rydym yn cydnabod o dan yr amgylchiadau presennol, gall effaith COVID-19 ynddo'i hun fod yn wendid, gan ei bod yn ofynnol i deuluoedd a phlant fyw eu bywydau yn wahanol iawn. I rai plant





## Gwasanaeth 'Mewn Ctrl': Beth rydym yn gynnig?

- Cyngor ac arweiniad i rieni / gofalwyr ar ddiogelwch ar-lein, rheoli amser sgrin ac arferion yn ystod COVID-19, yn ogystal â chefnogi plant yn emosiynol.
- Galwadau ffôn rhagarweiniol ag adeiladu perthynas gyda'r rhiant / gofalwr a'r person ifanc.
- 1 x sesiwn asesu gyda'r person ifanc.
- 1 x sesiwn asesu gyda'r rhiant / gofalwr.
- 3 x sesiwn gyda'r person ifanc - gyda'r nod o gefnogi'r person ifanc i allu mwynhau bywyd ar-lein mewn ffordd ddiogel ac iach, a sut i geisio cefnogaeth os oes angen. Gellir addasu'r rhain yn unol â gofynion unigol.
- 1 x sesiwn cynllunio diogelwch ar y cyd gyda'r person ifanc a'r rhiant / gofalwr.

## Meini Prawf

Nod 'Mewn Ctrl' yw gweithio gyda phlant i godi ymwybyddiaeth o risgiau posibl yn eu byd ar-lein ac oddi ar-lein ag i feithrin gwytnwch. Y plant a fydd yn gymwys ar gyfer

- Plant sydd wedi cael profiadau plentynod niweidiol neu wendidau yn bodoli.
- Sydd rhwng 9-13 oed (gall fod rhywfaint o hyblygrwydd yn ôl yr angen).
- Cymryd rhan mewn profiadau ar-lein sy'n peri pryder ond nad yw'n cael ei ystyried yn gamdriniaeth rywiol.
- Gyda rhai ffactorau cadarnhaol neu amddiffynnol i gefnogi eu hymgysylltiad.

## Y Broses

Gofynnwn ichi gynnwys plant a'u rhieni / gofalwyr i lenwi'r ffurflen atgyfeirio. O leiaf rydym yn disgwyl y byddwch yn trafod, ac yn barod i rannu'r ffurflen atgyfeirio, gyda'r teulu fel eu bod yn ymwybodol o'r hyn rydych wedi'i rannu. Gan fod gwybodaeth breifat a phersonol iddynt, byddwn yn ei rheoli'n sensitif fel y gallwn gefnogi dull seiliedig ar drawma o'r dechrau

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y gwasanaeth hwn neu os oes gennych ddi-ddordeb mewn cyfeirio, cysylltwch â'r gweithiwr ddyletswydd ar **02920 108080** (Caerdydd), **01792 456545** (Abertawe).